Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Adroddiad Sero Net

## Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2025

**Chwefror 2026**

**Cynhyrchwyd gan Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

| | |
|---|---|
| **Dogfen** | Adroddiad Sero Net<br>Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2025 |
| **Awduron** | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru<br>Tîm Adrodd Sero Net<br>netzeroreporting@energyservice.wales |
| **Cyhoeddwyd** | Mawrth 2026 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o allyriadau carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2025 ar lefel Cymru gyfan. Ar gyfer y mwyafrif o sefydliadau, mae hyn yn cynrychioli data sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol 2024-2025. Ar gyfer rhai colegau a phrifysgolion, o ystyried problemau alinio â'r broses adrodd, mae'r data yn gysylltiedig â'r flwyddyn academaidd 2023-2024. Mae'r cyfrifon allyriadau sydd wedi eu cyhoeddi yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan 82 o gyrff cyhoeddus (rhwng Ebrill a Hydref 2025). Mae hyn yn 3 yn fwy o gyrff cyhoeddus nag a adroddwyd yn y rownd flaenorol (2024).

Yn ogystal â hyn, mae'r ddogfen yn rhoi tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn o allyriadau carbon yn erbyn y pum cyfrif blynyddol blaenorol ochr yn ochr â data 2025 h.y. chwe chyfrif blynyddol rhwng 2020-2025.


Cyflwynir tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd ar draws y sectorau allyriadau allweddol. Dylid nodi bod ffin newidiol o ffynonellau allyriadau, a nifer cynyddol o gyrff adrodd yn effeithio ar y gallu i gymharu pob un o'r 6 blynedd, yn enwedig ar lefel Cymru gyfan.

Cyhoeddir dangosfwrdd digidol lle gellir archwilio'r allyriadau a adroddwyd a'r data cysylltiedig, ochr yn ochr â chyfrifon allyriadau ar gyfer cyrff sector cyhoeddus unigol Cymru.

Byddwn hefyd yn tynnu sylw at welliannau i'r broses adrodd, a'r goblygiadau a'r manteision i'r cyrff adrodd, yn ogystal â sut mae'r newidiadau hyn yn integreiddio ag uchelgeisiau ehangach Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Sero Net 2030.


Dychwelyd i’r tabl cynnwys

Amcangyfrifir bod cyfanswm allyriadau 2025 ar gyfer holl Gyrff Sector Cyhoeddus Cymru yn **3,958 ktCO2e** fel y dangosir isod. Awdurdodau Lleol sy’n cyfrannu'r allyriadau mwyaf at gyfanswm yr ôl troed (45%). Cyfrannodd GIG Cymru y swm uchaf nesaf (35%). Dilynir hyn gan y grŵp amrywiol iawn o Gyrff Sector Cyhoeddus Eraill (9%). Mae Prifysgolion a Cholegau, Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu'r 11% sy'n weddill. Dangosir gwerthoedd ktCO2e cyfatebol isod.




Dychwelyd i'r tabl cynnwys

Amcangyfrifir bod mwyafrif allyriadau'r sector cyhoeddus yn deillio o'r **Gadwyn Gyflenwi**, sy'n cyfateb i 2,963 ktCO2e a 75% o gyfanswm yr allyriadau. Amcangyfrifir bod allyriadau sy'n gysylltiedig ag **adeiladau** yn cyfrannu 546 ktCO2e a 14% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau **trafnidiaeth** yn cyfrannu 430 ktCO2e ac 11% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau **nwyon meddygol** yn cyfrannu 11 ktCO2e a ~1%. Amcangyfrifir bod allyriadau **gwastraff** yn cyfrannu 8 ktCO2e a ~1% o'r cyfanswm.



Dychwelyd i’r tabl cynnwys

**Gwelwyd cynnydd o 12% yng nghyfanswm yr allyriadau rhwng 2024 a 2025** o 3,540 ktCO2e i 3,958 ktCO2e. Ers y flwyddyn gyntaf yr adroddwyd (yn 2020), mae allyriadau wedi cynyddu 78%. Mae'r newid cyfres amser yng nghyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan y cynnydd mewn sefydliadau sy’n adrodd a gwariant o fewn y gadwyn gyflenwi. Nifer y sefydliadau a adroddodd yn 2025 oedd 82. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 35 o sefydliadau o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd gyntaf.



Dychwelyd i'r tabl cynnwys

## Prif ysgogwyr newid rhwng 2024 a 2025

Ar lefel y sector cyhoeddus cyfan, cynyddodd allyriadau 12% yn gyffredinol rhwng 2024 a 2025, sy'n cyfateb i 418 ktCO2e. Mae'r newid hwn yn cyfuno cynnydd yn y mwyafrif o gategorïau allyriadau, yn bennaf cadwyn gyflenwi a thrafnidiaeth i raddau llai, a gostyngiadau mewn categorïau allyriadau eraill, fel gwastraff. Prif ysgogwyr y newid cyffredinol yw cynnydd o 404 ktCO2e mewn allyriadau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi.

Er mwyn gweld y tu hwnt i'r cynnydd mewn cyrff adrodd fel sbardun ar gyfer newidiadau allyriadau, ac i gymharu gwahanol flynyddoedd yn fwy priodol, gellir dadansoddi'r allyriadau cyfartalog fesul sefydliad sy'n adrodd (cyfanswm yr allyriadau fesul nifer o gyrff sy'n adrodd). Mae hyn yn creu darlun ychydig yn wahanol gydag allyriadau cyfartalog fesul sefydliad yn gostwng yn barhaus rhwng 2022 a 2025 ar draws pob categori allyriadau, ar wahân i'r gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn fwy o adlewyrchiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i leihau'r allyriadau o fewn eu rheolaeth.

Mae'r newid yn yr allyriadau cadwyn gyflenwi a adroddwyd yn cael ei achosi'n rhannol gan gynnydd o 1% yng nghyfanswm gwariant ar draws pob sefydliad a chynnydd cyfartalog mewn dwysedd carbon y gadwyn gyflenwi (kgCO2e/£) o 15%. Mae rhai categorïau gwariant yn y gadwyn gyflenwi sy'n arbennig o berthnasol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn dwysedd allyriadau o gymaint â 30%. Bydd nodi newid gwirioneddol mewn perthynas ag allyriadau'r gadwyn gyflenwi ond yn gallu cael ei wahaniaethu drwy ddefnyddio data penodol i gyflenwyr (ac nid y dulliau economaidd sy'n seiliedig ar ddirprwy a ddefnyddir ar hyn o bryd). Nid yw'r dulliau amcangyfrif (a'r canlyniadau) hyn yn addas ar gyfer olrhain allyriadau o flwyddyn i flwyddyn ac felly dod i gasgliadau ar ysgogwyr newid. Bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid hwn drwy ryddhau 'ffurflen casglu data cyflenwyr' cysylltiedig, y gall sefydliadau ei rhannu'n wirfoddol gyda'u cyflenwyr i gasglu data penodol i gyflenwyr ar allyriadau.

Mae allyriadau a dadansoddiad sy'n gysylltiedig ag adeiladau o fewn yr adroddiadau Sero Net wedi cael trawsnewidiad cadarnhaol sylweddol eleni, gyda'r opsiwn i gyrff sector cyhoeddus gyflwyno'r defnydd ynni fesul safle. Cyflwynodd 59 o gyrff sector cyhoeddus ddata ar lefel safle yn wirfoddol, gan ddarparu data defnydd ynni ar gyfer dros 3,400 o adeiladau ledled Cymru.

O fewn adeiladau, mae'r defnydd o danwydd ffosil (nwy naturiol, olew, glo, LPG, ac ati) wedi aros yn gyffredinol gyson rhwng eleni a'r llynedd, gyda chynnydd bach o 1% mewn allyriadau, wedi'i ysgogi gan gynnydd bach yn y defnydd o nwy naturiol. Arhosodd y defnydd o drydan yn sefydlog hefyd rhwng 2024 a 2025, gydag allyriadau yn cynyddu 0.5% yn unig. Arhosodd dwysedd carbon grid y DU yn debyg rhwng y ddwy flynedd hefyd, fodd bynnag, disgwylir y bydd hyn yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r defnydd o ynni sefydlog mewn adeiladau rhwng 2024 a 2025 wedi bod o ganlyniad i gydbwyso lleihau ynni ar draws Sector Cyhoeddus Cymru a chynnwys sefydliadau newydd yn y rhaglen adrodd Sero Net.

Mae allyriadau fflyd yn cyfrif am dros 50% o allyriadau sy'n seiliedig ar drafnidiaeth ac maent wedi gweld cynnydd cyson ers y flwyddyn adrodd gyntaf yn 2020. Rhwng 2024 a 2025 cynyddodd allyriadau fflyd 7%. Mae hyn wedi'i ysgogi gan dri phrif ffactor: cynnydd yn nifer y cyrff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru sy'n adrodd am 'danwydd anhysbys', bron i bedair gwaith nifer yr allyriadau diesel o gerbydau nwyddau trwm a faniau, a chynnydd yn y defnydd o olew nwy o fewn gwasanaethau trên TrC. Mae milltiroedd cerbydau trydan batri amcangyfrifedig wedi gweld twf esbonyddol, gyda phedair gwaith cymaint o bellter wedi'i deithio gan gerbydau trydan batri yn 2025 o'i gymharu â 2024, ac wyth gwaith cymaint o'i gymharu â 2023.

Mae allyriadau cymudo a gweithio gartref wedi cynyddu ychydig iawn rhwng 2024 a 2025 (cynnydd o 3%), er bod y twf wedi arafu'n sylweddol, gan nodi bod arferion gweithio ôl-Covid wedi dechrau sefydlogi. Mae allyriadau teithio busnes wedi gostwng rhwng 2024 a 2025 (gostyngiad o 7%), wedi'i ysgogiu gan ostyngiad mewn milltiroedd hedfan a char pellter byr, a chynnydd mewn milltiroedd rheilffyrdd.

# Cynnwys

**Ffigurau** ..... 9
**Ynghylch Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru** ..... 11
**Geirfa Termau** ..... 12
**Llywio'r Adroddiad hwn** ..... 13
**Cyflwyniad** ..... 14
**Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru** ..... 17
**Mewnwelediadau categori allyriadau** ..... 23
Cadwyn gyflenwi ..... 23
Adeiladau ..... 26
Trafnidiaeth ..... 29
Coedwigaeth, defnydd tir ac amaethyddiaeth ..... 31
Ynni adnewyddadwy ..... 32
**Atodiadau** ..... 34

# Ffigurau

*Ffigur 1 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl math o gategori allyriadau ar gyfer 2025* ......... 18

*Ffigur 2 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl is-sector ar gyfer 2025* .................................... 19

*Ffigur 3 - Cyfanswm blynyddol allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl cwmpas a nifer y sefydliadau sy'n adrodd rhwng 2020 a 2025* ........................................................................................................................ 20

*Ffigur 4 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl categori (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi), gyda nifer y sefydliadau sy'n adrodd rhwng 2020 a 2025* ......................................................................................... 21

*Ffigur 5 – Cyfanswm allyriadau cadwyn gyflenwi y sector cyhoeddus (ktCO$_2$e), gyda gwariant y gadwyn gyflenwi (£) o 2020 i 2025* ................................................................................................................................. 22

*Ffigur 6 – Cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus yn y gadwyn gyflenwi (£), gyda chyfraddau chwyddiant blynyddol cyfartalog rhwng 2020 a 2025* ......................................................................................................... 23

*Ffigur 7 - Cyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi sector cyhoeddus (ktCO2e), gyda dwysedd allyriadau gwariant y gadwyn gyflenwi (kgCO2e/£) rhwng 2020 a 2025* ........................................................................................... 24

*Ffigur 8 - Y tri chategori SIC â'r allyriadau uchaf o gyfanswm gwariant sector cyhoeddus Cymru rhwng 2020 a 2025* ..................................................................................................................................................... .25

*Ffigur 9 - Cyfanswm y defnydd o drydan a nwy naturiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (MWh), gydag allyriadau o drydan a nwy naturiol (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025* ......................................................................... 26

*Ffigur 10 - Cyfanswm ychwanegiad oerydd sector cyhoeddus Cymru (kg), gydag allyriadau (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025* ................................................................................................................................................... 27

*Ffigur 11 - Cyfanswm y defnydd o ddŵr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (m3), gydag allyriadau (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025* ........ 28

*Ffigur 12 - Cyfanswm allyriadau sector cyhoeddus Cymru (ktCO2e) o drafnidiaeth, wedi'u rhannu yn ôl fflyd, teithio busnes, cymudo a gweithio gartref rhwng 2020 a 2025* ........ 29

*Ffigur 13 - Cilomedrau o gyfanswm fflyd sector cyhoeddus Cymru a deithiwyd mewn EV batri rhwng 2020 a 2025* ........ 30

*Ffigur 14 - Cilometrau o gyfanswm fflyd sector cyhoeddus Cymru a deithiwyd gan gerbydau diesel, petrol a cherbydau trydan batri rhwng 2020 a 2025* ........ 30

*Ffigur 15 - Cyfanswm allyriadau FLAG sector cyhoeddus Cymru rhwng 2020 a 2025* ........ 31

*Ffigur 16 – Trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn ôl math o dechnoleg* ........ 32

*Ffigur 17 – Llif trydan adnewyddadwy yn 2025 o gynhyrchu, trwy allforio a defnydd* ........ 33

# Ynghylch Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

**Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu i hyrwyddo prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel.**

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cefnogi sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn darparu arbedion costau, cynhyrchu incwm a buddion cymunedol ehangach. Nod y Gwasanaeth Ynni yw sicrhau bod prosiectau lleihau ynni a charbon yn digwydd yng Nghymru.

Rydym yn cynnig cymorth technegol, masnachol a chaffael drwy dîm o arbenigwyr sydd â phrofiad helaeth o ddatblygu prosiectau ynni a datgarboneiddio yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth ynni yn agored i gyrff sector cyhoeddus a mentrau cymunedol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, GIG Cymru, prifysgolion, colegau ac ysgolion, parciau cenedlaethol, gwasanaethau tân ac achub, amgueddfeydd a llyfrgelloedd cenedlaethol, cynghorau celfyddydau a chwaraeon, cynghorau cymuned a mentrau cymunedol.

Rhwng Gorffennaf 2018 a mis Mai 2025, llwyddodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiad o £270.7m mewn ynni adnewyddadwy, systemau ynni adeiladau, gwres carbon isel a phrosiectau trafnidiaeth di-allyriadau ledled Cymru. Mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif o 1.1m tunnell o $CO_2e$. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gan Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sydd i'w gweld yma.


# Geirfa Termau

| Talfyriad | Ystyr |
|---|---|
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Coedwigaeth a Materion Gwledig |
| DESNZ | Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net |
| EV | Cerbyd Trydan |
| FLAG | Coedwigaeth, Defnydd Tir ac Amaethyddiaeth |
| GHG | Nwyon tŷ gwydr |
| GWh | Gigawat-oriau (109) |
| HGV | Cerbyd Nwyddau Trwm |
| ktCO2e | Cilotunnell o garbon deuocsid cyfwerth |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| BGC | Corff y Sector Cyhoeddus |
| PV | Ffotofoltaidd |
| SIC | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| TrC | Trafnidiaeth Cymru |
| WPS | Sector Cyhoeddus Cymru |

# Llywio’r Adroddiad hwn

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i gwmpasu'r allyriadau o sector cyhoeddus Cymru cyfan.

Er mwyn cefnogi llywio o fewn y ddogfen hon, gall y darllenydd ddychwelyd i'r brif dudalen cynnwys drwy glicio ar 'Dychwelyd i'r tabl cynnwys', sydd ar ochr chwith uchaf pob tudalen. Oddi yno gallwch lywio i'r adran berthnasol.


Dychwelyd i'r tabl cynnwys

Llywio'r Adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i gwmpasu'r allyriadau canlynol

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, gosododd Llywodraeth Cymru darged i gyflawni Sero Net erbyn 2050. Yn ogystal, gosodwyd targedau interim, a sefydlwyd cyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd. Mae'r targed interim nesaf wedi'i osod fel gostyngiad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030 yn erbyn llinell sylfaen 1990. I ategu hyn, cadarnhaodd gweinidogion Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus arwain y ffordd a chyflawni Sero Net erbyn 2030.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sector cyhoeddus mewn sefyllfa amlwg i annog lleihau allyriadau y tu hwnt i'w maes dylanwad uniongyrchol. Mae adrodd blynyddol ar allyriadau carbon yn hanfodol i gymryd camau gwybodus ar newid hinsawdd a monitro cynnydd tuag at Sero Net.

Mae cyrff cyhoeddus Cymru wedi adrodd ar garbon dros y chwe blynedd diwethaf. Mae nifer y sefydliadau sy'n adrodd wedi cynyddu o 47 yn 2020 i 82 yn 2025.

## Amlinelliad o'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cyfrifon allyriadau carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2025 ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2024-25 yn bennaf, er bod colegau a phrifysgolion wedi cyflwyno data ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24. Mae'r cyfrifon hyn yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd rhwng Ebrill a Hydref 2025. Mae'r holl allbynnau yn seiliedig ar ddata a ddarperir drwy'r broses casglu data safonol. Darperir tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn yn seiliedig ar gymharu data 2025 â'r rowndiau adrodd blaenorol. Lle bo'n bosibl, cynhwysir naratif sy'n gysylltiedig â newidiadau a nodwyd.

Gellir dod o hyd i sylwebaeth ar feysydd ar gyfer gwelliannau mewn adrodd yn yr atodiad (A1). Mae hyn yn cyd-fynd â chrynodeb o'r dulliau prosesu data a ddefnyddir i lunio'r cyfrifon carbon (A2).

## Ystyriaethau allweddol

Mae angen parhau i esblygu dulliau mesur a mireinio dulliau casglu data yn y blynyddoedd adrodd yn y dyfodol. Er enghraifft, gwelliannau sy'n ofynnol o ran cywirdeb mesur yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, allyriadau a defnydd tir a symud ymaith ac ynni adnewyddadwy.

Mae gwahaniaethau mewn ffynonellau allyriadau a'r nifer cynyddol o gyrff adrodd yn effeithio ar y gymhariaeth rhwng rowndiau adrodd ar draws pob un o'r chwe blynedd (ar lefel "Cymru gyfan"). Dylid nodi hefyd bod pandemig COVID-19 hefyd wedi effeithio ar rowndiau adrodd blaenorol, yn enwedig 2021. Dylid ystyried casgliadau sy'n seiliedig ar dueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn yn ofalus yn y cyd-destun hwn.

## Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi

Mae dirprwyon economaidd yn darparu asesiad cyflym o allyriadau'r gadwyn gyflenwi i fyny'r afon ac yn caniatáu i gyrff cyhoeddus nodi mannau lle ceir problemau (gan ddefnyddio £/CO2e). Mae'r broses adrodd Sero Net yn defnyddio dirprwyon sy'n seiliedig ar Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) yn absenoldeb data penodol i gyflenwyr. Gelwir y dull hwn o adrodd allyriadau yn y gadwyn gyflenwi yn Haen 1.

Mae'r ffactorau allyriadau a ddarperir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r templed adrodd yn defnyddio set o ffactorau wedi'u diweddaru (yn seiliedig ar ddata 2021, y set ddata fwyaf cyfoes sydd ar gael gan lywodraeth y DU).

Y newid cyfartalog ar gyfer unrhyw ffactor dwysedd allyriadau penodol rhwng eleni a'r llynedd oedd ±9%. Ar gyfer rhai categorïau penodol (sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus) mae'r newid mewn dwyster allyriadau yn fwy. Er enghraifft, cynnydd o +12% ar gyfer gwasanaethau iechyd dynol.

Bydd ymdrechion i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi ond trwy ddefnyddio data penodol i gyflenwyr (yn disodli'r dull dirprwy cost) y gellir eu gwahaniaethu'n wirioneddol. Gelwir y dull hwn o adrodd allyriadau yn y gadwyn gyflenwi yn Haen 2 neu 3.

Yn 2025, adroddwyd 8% o allyriadau'r gadwyn gyflenwi trwy ddulliau Haen 2/3. O hyn, nododd sefydliadau GIG Cymru fod 81% o'r holl allyriadau Haen 2/3 a adroddwyd. Gydag allyriadau'r

gadwyn gyflenwi yn cyfrif am 75% o gyfanswm allyriadau sector cyhoeddus Cymru yn 2025, anogir yn gryf bod mwy o gyrff sector cyhoeddus Cymru yn symud i ffwrdd o ddirprwyon sy'n seiliedig ar gost cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Gweler Casglu data allyriadau cyflenwyr i ddeall sut mae'r Gwasanaeth Ynni yn cefnogi cyrff sector cyhoeddus i wneud y trawsnewidiad hwn.

Mae ffactorau allyriadau dirprwyol yn cynnwys oedi 4 blynedd oherwydd y ffigurau gorau sydd ar gael, h.y. mae adroddiadau 2025 yn seiliedig ar ffactorau 2021.

Dychwelyd i’r tabl cynnwys

# Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru

Mae'r dadansoddiad isod yn rhoi trosolwg o'r amcangyfrifon allyriadau carbon cyfanredol ar lefel sector cyhoeddus Cymru gyfan. Darperir ffigurau ar gyfer y cyfnod adrodd cyfredol ochr yn ochr â chymhariaeth o ffigurau mewn cylchoedd adrodd blaenorol.

## Penawdau

Roedd cyfanswm allyriadau carbon sector cyhoeddus Cymru ar gyfer 2025 yn cyfateb i **3,958 ktCO2e**.

Yn ôl categori allyriadau, mae'r mwyafrif o allyriadau yn deillio o weithgareddau o fewn y **gadwyn gyflenwi ar 2,963 ktCO2e** (75% o gyfanswm yr ôl troed).

**Adeiladau** a **thrafnidiaeth** yw'r categorïau allyriadau mwyaf nesaf, gan gyfrif am **546 ktCO2e** (14%) a **430 ktCO2e** (11%) yn y drefn honno.

Yn ôl is-sector, **Awdurdodau Lleol** sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o ôl troed y sector cyhoeddus, gan gyfrannu **1,784 ktCO2e** (45% o gyfanswm yr ôl troed).

**Mae GIG Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus yn** cynrychioli is-sectorau sefydliadol gyda'r cyfraniadau mwyaf arwyddocaol nesaf i gyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus, gyda **1,371 ktCO2e** (35%) a **336 ktCO2e** (9%) yn y drefn honno.

**Mae cyfanswm yr allyriadau a adroddwyd gan y sector cyhoeddus cyfan wedi cynyddu 12% rhwng 2024 a 2025**, sy'n cyfateb i 418 ktCO2e. Mae allyriadau hefyd wedi cynyddu 78% rhwng 2020 a 2025, wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n adrodd.


Mae nifer y sefydliadau sy'n adrodd wedi cynyddu bob rownd. 2025 yw'r uchafbwynt presennol gyda'r **nifer uchaf o sefydliadau sy’n adrodd hyd yma (82).**

DS. Sylwch fod y ffigurau a adroddir yn cael eu brasamcanu i'r rhif cyfan agosaf er hwylustod eu cyflwyno. O ganlyniad, gall fod anghysondebau bach ar lefelau cyfanredol pan fydd rhifau cyfan yn cael eu crynhoi, oherwydd eithrio gwerthoedd degol.

## Cyfanswm yr amcangyfrifon ar gyfer 2025

Roedd cyfanswm yr allyriadau o holl gyrff sector cyhoeddus Cymru yn cyfateb i **3,958 ktCO2e yn 2025.**


Yn ôl **categori allyriadau**, mae'r mwyafrif o allyriadau yn deillio o weithgareddau o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'r allyriadau hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm yr allyriadau. Adeiladau a thrafnidiaeth sy'n cyfrannu'r gyfran uchaf nesaf o allyriadau (14% ac 11% yn y drefn honno). Nwyon meddygol a gwastraff gyda'i gilydd sy'n cyfrif am y gweddill.




*Ffigur 1 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl math o gategori allyriadau ar gyfer 2025*

Yn ôl **is-sector**, Awdurdodau Lleol sy'n cyfrannu'r allyriadau mwyaf at gyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus (45%), ac yna GIG Cymru (35%), a Chyrff Cyhoeddus Eraill Cymru (9%).

Mae is-sectorau eraill (Prifysgolion, Colegau, Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol) yn cyfrannu'r 11% sy'n weddill.





*Ffigur 2 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl is-sector ar gyfer 2025*

### Allyriadau blynyddol

Mae cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus wedi cynyddu ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Rhwng 2024 a 2025, bu cynnydd o 12% yng nghyfanswm yr allyriadau a welwyd. Ers y flwyddyn adrodd gyntaf, mae allyriadau wedi cynyddu 77%.

Dros y cyfnod hwn, mae nifer y sefydliadau sy'n adrodd hefyd wedi cynyddu. Y flwyddyn adrodd ddiweddaraf sy'n cyfrif am y nifer uchaf o sefydliadau adrodd (82). Mae hyn yn gynnydd o 35 o sefydliadau o'i gymharu â 2020 (47). Mae'r newidiadau macro a welir yng nghyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus yn cael eu hysgogi i raddau helaeth gan y newid mewn sefydliadau adrodd.

Fodd bynnag, gellir priodoli'r cynnydd mewn allyriadau rhwng 2024 a 2025 i raddau helaeth i'r cynnydd o 14% mewn allyriadau Cwmpas 3, yr allyriadau anuniongyrchol o weithgareddau i fyny'r afon ac i lawr yr afon, megis prynu nwyddau a gwasanaethau (cadwyn gyflenwi).





*Ffigur 3 - Cyfanswm blynyddol allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl cwmpas a nifer y sefydliadau sy'n adrodd rhwng 2020 a 2025*

Mae allyriadau'r sector cyhoeddus o adeiladau wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth ers 2024, gan gynyddu llai nag 1%. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd mewn sefydliadau adrodd ac yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y defnydd o nwy ochr yn ochr â datgarboneiddio grid trydan cenedlaethol.

Mae allyriadau trafnidiaeth wedi cynyddu 4% ers 2024, gyda chynnydd mewn fflyd a chymudo.

Mae allyriadau gwastraff wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2022, wedi'i ysgogi gan lefelau is o wastraff a adroddwyd a lefelau llai o wastraff a adroddwyd i safleoedd tirlenwi. Rhwng 2024 a 2025, mae allyriadau gwastraff wedi gostwng dros hanner. Mae hyn yn ganlyniad i newid methodolegol yn y cyfrifon o wastraff trefol.

Mae allyriadau nwyon meddygol wedi cynyddu 9% ers 2024, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y defnydd a adroddwyd o ocsid nitraidd a sevoflurane.





*Ffigur 4 - Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (ktCO2e) yn ôl categori (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi), gyda nifer y sefydliadau sy'n adrodd rhwng 2020 a 2025*

Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn cael eu trin ar wahân yma oherwydd eu cyfraniad sylweddol at yr ôl troed cyffredinol (75%).

Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi wedi cynyddu 16% rhwng 2024 a 2025, o 2,559 ktCO2e i 2,962 ktCO2e. Mae'r newid yn yr allyriadau cadwyn gyflenwi a adroddir yn cael ei ysgogi'n rhannol gan gynnydd o 1% yng nghyfanswm gwariant ar draws pob sefydliad a chynnydd cyfartalog o 15% mewn dwysedd carbon yn y gadwyn gyflenwi (ktCO2e/£). Mae rhai categorïau gwariant yn y gadwyn gyflenwi sy'n arbennig o berthnasol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn dwysedd allyriadau o gymaint â 30%. Gweler Mewnwelediadau i'r gadwyn gyflenwi am ragor o fanylion ar allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

Bydd unrhyw ymdrechion i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi ond trwy ddefnyddio data sy'n benodol i gyflenwyr (yn disodli'r dull dirprwy economaidd).





*Ffigur 5 – Cyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi sector cyhoeddus (ktCO2e), gyda gwariant yn y gadwyn gyflenwi (£) rhwng 2020 a 2025*

# Mewnwelediadau categori allyriadau

## Cadwyn gyflenwi

Mae cyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi wedi cynyddu 16% rhwng 2024 a 2025, o 2,559 ktCO2e i 2,962 ktCO2e. Mae'r newid hwn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ddiweddariadau i'r ffactorau allyriadau dirprwy sy'n seiliedig ar wariant a gyhoeddir yn flynyddol gan DESNZ, a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Mae'r amrywiadau hyn o flwyddyn i flwyddyn mewn ffactorau allyriadau yn adlewyrchu newidiadau mewn data economaidd ledled y DU, gan gynnwys chwyddiant. O ystyried bod gwariant wedi cynyddu 1% rhwng 2024 a 2025, mae'r cynnydd o 16% mewn allyriadau yn fwy arwyddocaol o newidiadau mewn amodau economaidd a setiau data cenedlaethol, nag unrhyw newid sylweddol ym mherfformiad carbon cyflenwyr neu ymddygiad caffael o fewn sector cyhoeddus Cymru.


Yn 2025, bu cynnydd o 15% mewn dwysedd allyriadau'r gadwyn gyflenwi (faint o kgCO2e a allyrrwyd am bob £ a wariwyd gan sector cyhoeddus Cymru), o 0.216 kgCO2e/£ i 0.248 kgCO2e/£. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn y ffactorau allyriadau eu hunain wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn, yn ogystal




*Ffigur 6 – Cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus yn y gadwyn gyflenwi (£), gyda chyfraddau chwyddiant blynyddol cyfartalog rhwng 2020 a 2025*

â thwf posibl mewn gwariant ar draws sectorau mwy carbon-ddwys. Ar draws pob categori SIC, y cynnydd blynyddol cyfartalog mewn ffactorau allyriadau ar gyfer 2025 oedd 9%. O ganlyniad, gellir adrodd am allyriadau uwch hyd yn oed pan fo'r gwariant cyffredinol wedi aros yn sefydlog ar y cyfan.

Profodd sawl sector sy'n ganolog i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gynnydd uwch na'r cyfartaledd mewn dwysedd ffactor allyriadau. Gwelodd gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol, y categori SIC sy'n allyrru uchaf yn gyson, gynnydd o 12% mewn dwysedd allyriadau. Cyfrannodd hyn at gynnydd o 24% mewn allyriadau cysylltiedig, er gwaethaf gostyngiad o 0.5% mewn gwariant. Cynyddodd dwysedd allyriadau gweithgynhyrchu 7%, gan gyfrannu at gynnydd o 12% mewn allyriadau gyda chynnydd llai na 0.5% mewn gwariant. Mewn cyferbyniad, dim ond ~1% o gynnydd mewn dwysedd allyriadau a brofodd adeiladu; ynghyd â gostyngiad o 3% mewn gwariant, cyfrannodd hyn at ostyngiad o 2% mewn allyriadau ar gyfer y categori hwnnw.





*Ffigur 7 - Cyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi sector cyhoeddus (ktCO2e), gyda dwysedd allyriadau gwariant y gadwyn gyflenwi (kgCO2e/£) rhwng 2020 a 2025*

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

Yn gyffredinol, mae'r twf mewn allyriadau cadwyn gyflenwi a adroddwyd yn adlewyrchu ffactorau methodolegol a macroeconomaidd yn bennaf yn hytrach na newidiadau gweithredol o fewn cyrff cyhoeddus. Mae ffigurau 2025 yn dangos sensitifrwydd cyfrif seiliedig ar wariant i dueddiadau economaidd cenedlaethol a'r angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus symud i adrodd allyriadau cadwyn gyflenwi sy'n defnyddio data cyflenwyr-benodol. Gweler Casglu data allyriadau cyflenwyr i ddeall sut mae'r Gwasanaeth Ynni yn cefnogi cyrff sector cyhoeddus i wneud y trawsnewidiad hwn

.





*Ffigur 8 - Y tri chategori SIC allyriadau uchaf o gyfanswm gwariant sector cyhoeddus Cymru rhwng 2020 a 2025*

## Adeiladau

Mae cyfanswm allyriadau o adeiladau wedi cynyddu llai nag 1% ers 2024, o 541 ktCO2e i 546 ktCO2e. Mae'r newid lleiaf hwn yn adlewyrchu cynnydd lleiaf yn y defnydd o drydan a'r defnydd o nwy naturiol, o 2% ac 1%, yn y drefn honno.


O ystyried bod nifer y sefydliadau adrodd wedi cynyddu rhwng 2024 a 2025, mae hyn yn mynd rhywfaint i esbonio'r cynnydd bach a welwyd. Wrth ystyried y defnydd ynni cyfartalog fesul sefydliad, gwelwn ostyngiad bach o 2.5% rhwng 2024 a 2025. Rhwng 2020 a 2025 gwelwn ostyngiad o 26% yn yr ynni cyfartalog a ddefnyddir fesul sefydliad, fodd bynnag, mae sefydliadau llai sy'n defnyddio ynni is yn gyffredinol wedi ymuno â blynyddoedd olaf y rhaglen adrodd Sero Net.




*Ffigur 9 - Cyfanswm y defnydd o drydan a nwy naturiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (MWh), gydag allyriadau o drydan a nwy naturiol (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025*


2025 yw'r flwyddyn gyntaf i BGCau allu darparu data defnydd ynni ar lefel safle. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 60 o'r 82 sefydliad yn darparu defnydd o ynni ar gyfer safleoedd unigol, sy'n gyfystyr â dros 4,100 o adeiladau. Gyda'r arwynebedd llawr a'r math o adeilad yn cael eu darparu hefyd, gellir adolygu'r perfformiad ynni ar gyfer safleoedd penodol nawr.

Mae cyfanswm allyriadau oeryddion yn eithaf dibwys mewn perthynas ag allyriadau o nwy naturiol a defnydd trydan, gan gyfrannu 6 ktCO2e at y 546 ktCO2e o allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau. Fodd bynnag, gydag ymdrechion i ddatgarboneiddio adeiladau'r sector cyhoeddus trwy osod systemau gwresogi carbon isel fel pympiau gwres, mae'r defnydd o oeryddion yn debygol o gynyddu. Bydd mesur y cynnydd yn y defnydd o oerydd yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer deall datgarboneiddio adeiladau.




*Ffigur 10 - Cyfanswm ychwanegiad oerydd sector cyhoeddus Cymru (kg), gydag allyriadau (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025*

Gostyngodd cyfanswm yr allyriadau o'r defnydd o ddŵr mewn adeiladau 18% yn 2025, oherwydd gostyngiad o 8% yn y defnydd o ddŵr.





*Ffigur 11 - Cyfanswm y defnydd o ddŵr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (m3), gydag allyriadau (ktCO2e) rhwng 2020 a 2025*

## Trafnidiaeth

Mae cyfanswm allyriadau Trafnidiaeth wedi cynyddu 4% rhwng 2024 a 2025, gyda chynnydd mewn allyriadau fflyd a chymudo y tu ôl i hyn. Rhwng 2024 a 2025, mae allyriadau'r fflyd wedi cynyddu 7% o 210 ktCO2e i 225 ktCO2e. Cynyddodd allyriadau cymudo hefyd 4% o 137 ktCO2e i 142 ktCO2e. I'r gwrthwyneb, mae allyriadau gwaith cartref wedi aros yr un fath ac mae allyriadau o deithio busnes wedi gostwng am y tro cyntaf ers 2022, 6% o 37 ktCO2e i 34 ktCO2e.


Mae data allyriadau ar gyfer gweithio gartref a chymudo yn cael ei gyfrifo i raddau helaeth gan ddefnyddio amcangyfrifon sy'n seiliedig ar bellteroedd cymudo cyfartalog yng Nghymru a FTE. Bydd y Gwasanaeth Ynni yn archwilio ffyrdd o alluogi adrodd mwy cywir ar allyriadau gweithio gartref a chymudo yn y cynllun cyflawni nesaf.





*Ffigur 12 - Cyfanswm allyriadau sector cyhoeddus Cymru (ktCO2e) o drafnidiaeth, wedi'u rhannu yn ôl fflyd, teithio busnes, cymudo a gweithio gartref rhwng 2020 a 2025*

Cofnododd sector cyhoeddus Cymru gynnydd sylweddol yn y defnydd o gerbydau trydan batri yn 2025. Cynyddodd y cilomedrau a deithiwyd gan EV batri 348% rhwng 2024 a 2025, gan dyfu o 1.7 miliwn cilomedr i 7.9 miliwn cilomedr. Er bod EVs yn dal i gyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm pellter y fflyd, gyda cherbydau diesel a phetrol yn parhau i ddominyddu ar 217 miliwn cilomedr a 16 miliwn cilomedr yn y drefn honno, mae graddfa'r twf yn cynrychioli cyflymiad sylweddol yn y trawsnewidiad i fflyd ddatgarboneiddio. Mae'r cyflymiad yn cyd-fynd â chwblhau 120 o brosiectau fflyd allyriadau sero gan y Gwasanaeth Ynni yn ystod 2024 a 2025.

Nodyn: Amcangyfrifir cyfanswm y data milltiroedd. Pan fydd y Gwasanaeth Ynni yn derbyn data fflyd mewn litrau o danwydd, rydym yn defnyddio rhagdybiaethau effeithlonrwydd tanwydd ar gyfer gwahanol fathau o gerbydau i bennu'r milltiroedd.




*Ffigur 13 - Cilomedrau o gyfanswm fflyd sector cyhoeddus Cymru a deithiwyd mewn EV batri rhwng 2020 a 2025*





*Ffigur 14 - Cilometrau o gyfanswm fflyd sector cyhoeddus Cymru a deithiwyd gan gerbydau diesel, petrol a cherbydau trydan batri rhwng 2020 a 2025*

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

## Coedwigaeth, defnydd tir ac amaethyddiaeth

Mae allyriadau FLAG yn cael eu mesur a'u cyfrif gan gyrff sector cyhoeddus lle mae allyriadau a thynnu o dir yn ffurfio cyfran sylweddol o'r effaith gyffredinol. Mae hyn yn galluogi nodi cyfleoedd i leihau allyriadau neu wella tynnu. Fodd bynnag, nid yw'r ffynonellau allyriadau hyn, o dan ganllawiau Protocol GHG, yn cael eu categoreiddio fel ffynhonnell allyriadau Cwmpas 1, 2 na 3. Felly, nid ydynt wedi'u cynnwys o fewn cyfanswm yr ôl troed, ond maent yn cael eu hadrodd ar wahân ar gyfer cyfanrwydd a thryloywder.

Yn 2025, mae cyfanswm yr allyriadau amcangyfrifedig o newid defnydd tir net yn -984 ktCO2e.





*Ffigur 15 - Cyfanswm allyriadau FLAG sector cyhoeddus Cymru rhwng 2020 a 2025*

## Ynni adnewyddadwy

Cyfanswm cynhyrchu trydan adnewyddadwy gan gyrff Sector Cyhoeddus Cymru oedd cyfanswm 52.1GWh yn 2025, cynnydd o 7% yng nghyfanswm y cynhyrchiad. Darperir y cynhyrchiad hwn o amcangyfrif o 8.8GW o gapasiti adnewyddadwy wedi'i osod.


Yn 2025, mae cynhyrchu trydan adnewyddadwy wedi cael ei ddominyddu gan Solar PV, gyda PV wedi'i osod ar y ddaear, ar y to a'r canopi yn darparu 93% o gyfanswm y cynhyrchiad. Mae cynhyrchu ynni gwynt ar y tir wedi cynyddu o 3% o'r gyfran o gynhyrchu i 5% o'r cynhyrchiad gan kWh rhwng 2024 a 2025. Cynhyrchu o hydro darparodd y 2% sy'n weddill o gyfanswm y cynhyrchiad.

Gyda chyflwyno adrodd ar lefel safle, mae manylrwydd a chywirdeb adrodd wedi cynyddu rhwng 2024 a 2025. Darparwyd data lefel safle sy'n cynhyrchu unigol ar gyfer 678 o safleoedd yn 2024 a 2,172 o safleoedd yn 2025.




*Ffigur 16 – Trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn ôl math o dechnoleg*

Yn 2025, defnyddiwyd mwyafrif y trydan a gynhyrchwyd ar y safle; mae hyn yn bennaf o solar ffotofoltaidd ar y to. Mae cyfran sylweddol hefyd yn cael ei allforio i'r grid; hyn yn bennaf o gynhyrchu gwynt a solar ffotofoltaidd wedi'i osod ar y ddaear. Mae cyfran fach o'r trydan a gynhyrchir yn cael ei allforio i Gorff Sector Cyhoeddus arall.[1]




*Ffigur 17 – Llif trydan adnewyddadwy yn 2025 o gynhyrchu, trwy allforio a defnydd*

[1] Oherwydd mân wallau yn y broses adrodd data, mae cyfanswm y trydan adnewyddadwy a ddefnyddir / allforir yn fwy na chyfanswm y swm a gynhyrchir. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn diweddaru'r ffurflen casglu data ar gyfer 2026, er mwyn atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol

.

# Atodiadau

## A.1. Meysydd i'w Gwella

### *A.1.1.* Gwelliannau i'r templed

Mae gwelliant parhaus i'r dull o gasglu data yn hanfodol i sicrhau bod y canlyniadau mwyaf cywir a dibynadwy yn cael eu cynhyrchu. Mae gwahanol feysydd i'w gwella i'r templed casglu data wedi'u nodi. Bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn fersiynau o'r ffurflen yn y dyfodol ac ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Mae Cyrff Sector Cyhoeddus wedi cael cyfle i gyflenwi defnydd ynni fesul adeilad am y tro cyntaf eleni. Mae hyn yn golygu y gellir deall lle gall safleoedd fod yn perfformio'n wael. Bydd iteriad nesaf y casglu data yn mynd â hyn gam ymhellach trwy ofyn am ddata lleoliad (cod post) a'r math o wresogi pennaf. Bydd hyn yn helpu i nodi darpar dderbynwyr ar gyfer rhwydweithiau gwres ac ynni adnewyddadwy.
- Gwell mewnbynnu data, gan wneud y ffurflen gyflwyno yn lanach ac yn symlach gyda llawer mwy o arweiniad a gwybodaeth a ddarperir. Dylai hyn wella rhwyddineb cyflwyniadau.
- Byddwn nawr yn gofyn am ddolenni gwe i strategaethau/cynlluniau gweithredu datgarboneiddio sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd hyn yn caniatáu inni ddechrau deall llwybrau allyriadau yn y dyfodol a helpu i lywio'r cynnydd tebygol yn erbyn targedau.
- Diweddaru ffactorau allyriadau cod SIC ar gyfer ôl troed y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau allyriadau'r DU.

### *A.1.2.* Casglu data allyriadau cyflenwyr

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud, ochr yn ochr â grŵp dethol o gyrff sector cyhoeddus, i gefnogi'r gwaith o wella casglu data cadwyn gyflenwi Haen 2 a Haen 3. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae templed casglu data cyflenwyr gwirfoddol

wedi'i gynhyrchu. Bwriedir i'r daenlen excel hon gael ei dosbarthu gan gyrff y sector cyhoeddus i gyflenwyr eu nwyddau a'u gwasanaethau a brynwyd. Disgwylir i gyflenwyr ddarparu manylion am eu hallyriadau carbon ar lefel sefydliadol neu gontract benodol. Bydd templedi casglu data cyflenwyr wedi'u cwblhau yn cael eu dychwelyd i'r Corff Sector Cyhoeddus a'u coladu ganddo, gyda'r canlyniadau'n cael eu mewnbynnu yn ffurflen casglu data adrodd Sero Net y Corff Sector Cyhoeddus.

Mae'r templed yn cael ei gyflwyno ar gyfer Cyrff Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd allyriadau 2025/26. Bwriedir iddo fod yn gwbl wirfoddol, a dyma'r cam galluogi cyntaf i wella adrodd ar allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### *A.1.3.* Gwelliannau methodolegol

Mae angen gwelliannau methodolegol ar draws y rhan fwyaf o gategorïau allyriadau. Mae angen y rhain i hyrwyddo cywirdeb, dibynadwyedd, cyflawnrwydd a thryloywder y ffigurau a adroddwyd. Meysydd ffocws gwella allweddol yw:

- Esblygu'r dulliau a ddefnyddir i adrodd allyriadau cwmpas 2, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chaffael a datblygu ynni adnewyddadwy.
- Gwella cywirdeb dulliau amcangyfrif allyriadau a thynnu ar y tir, gallu categoreiddio a mapio pocedi tir yn well ac felly pennu'n fwy cywir y carbon y maent yn atafaelu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei archwilio, gyda chefnogaeth y *Protocol GHG newydd: Safon Sector Tir a Symud Ymaith*, i ddatblygu methodoleg well ar gyfer cyfrif allyriadau a defnydd tir a symud ymaith.
- Cyflwyno dulliau manwl gywir uwch ar gyfer asesu allyriadau gweithio gartref a chymudo.

## A.2. Adolygiad o Brosesu Data

Mae gwirio gwallau bellach wedi'i gynnwys yn y ffurflen casglu data, gyda gwallau wedi'u nodi ar gyfer data ar goll lle byddem yn ei ddisgwyl (e.e. manylion cerbydau fflyd a ddarperir ond dim milltiroedd), a gwallau wedi'u nodi lle nad yw cyfrifiadau yn gweithredu fel y disgwyliwyd. Mae cyfanswm baneri wedi'u cynnwys i wirio anghysondebau rhwng tablau unigol a'r canlyniadau cryno.

Adolygwyd yr holl gyflwyniadau data yn unigol, gyda gwallau, cyfrif dwbl a bylchau data wedi'u nodi i'w codi gyda'r sefydliad adrodd priodol. Codwyd rhai materion yn y cam hwn ac maent yn cynnwys gwallau copïo a gludo, cyflwyniadau anghyflawn, neu werthoedd anghywir ar gyfer cyflwyno. Roedd y materion hyn yn anghyffredin fodd bynnag, gyda'r rhan fwyaf o ddata a gyflwynwyd o ansawdd da. Cafodd data cyflwyno ar gyfer 2025 ei fapio hefyd yn erbyn cyflwyniadau o flynyddoedd blaenorol, fel y gellid nodi unrhyw amrywiad sylweddol a gwirio gwallau.

O werth sylweddol iawn yw'r sylwadau a'r nodiadau a ddarperir gan y cyrff sector cyhoeddus sy'n adrodd. Mae'r sylwadau hyn yn aml yn darparu atebion i'r baneri gwall neu'r cyd-destun pam y gall rhai ffynonellau allyriadau fod ar goll neu yn bresennol. Mae hyn wedi helpu i symleiddio'r broses sicrhau ansawdd ac wedi osgoi'r angen am nifer o gwestiynau a sgyrsiau dilynol. Anogir y defnydd o sylwadau a nodiadau yn gryf ar gyfer pob blwyddyn i ddod.

Mae'r holl ddata a gyflwynwyd o'r flwyddyn adrodd gyntaf hyd at 2025 wedi'i gasglu mewn cronfa ddata ganolog. Hwylusodd hyn ddatblygu dangosfwrdd ar-lein hygyrch ar gyfer Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "**Partneriaid Cyflenwi**"). Mae'r Adroddiad hwn (yr "**Adroddiad**") wedi'i gynhyrchu gan y Partneriaid Cyflenwi ac, er bod y safbwyntiau a fynegir ynddo yn cael eu rhoi mewn ewyllys da yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru, nad yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegir yn yr Adroddiad; (ii) y bwriedir i'r Adroddiad ddarparu canllawiau cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n derbyn yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) dylai unrhyw berson sy'n derbyn yr Adroddiad hwn felly gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu broffesiynol perthnasol arall ei hun i'r graddau y mae angen canllawiau penodol arnynt ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn perthynas ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol iddo; a (iv) nad yw'r Partneriaid Cyflenwi yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw gamgymeriad neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.